# Cardiau Rolau
# Tîm Gwylfa Adar

## Byddwch angen

- *Deunyddiau naturiol ar gyfer yr gwylfa/cuddfan adar*
- *Copïau o daflen waith 'Cardiau Rolau Tîm Gwylfa Adar', un i bob grŵp*
- *Dyfeisiau y gellir eu ddefnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer ymchwil*

## Croeso i'r Tîm Gwylfa Adar!

*Mae eich tîm cadwraeth wedi cael ei ddewis ar gyfer cenhadaeth bwysig – sefydlu gwylfa adar i astudio a gwarchod adar!*

*Eich tasg chi yw nodi a chofnodi gwahanol rywogaethau o adar a'u hymddygiad. Mae gwyddonwyr yn dibynnu ar eich arsylwadau cywir i olrhain poblogaethau adar. Gallai camgymeriadau arwain at ddefnyddio'r data anghywir, gan beryglu rhai adar.*


*Bydd pob un ohonoch yn ymgymryd â rôl arbennig yn eich tîm, yn seiliedig ar eich sgiliau a'ch diddordebau. A fyddech chi'n mwynhau arsylwi adar, dylunio cuddfannau, neu olrhain data?*

*Dewiswch rôl sy'n addas i chi!*
*Mae pob rôl yn chwarae rhan hanfodol wrth wneud eich gwylfa yn llwyddiant.*

*Gweithiwch gyda'ch gilydd, rhannwch eich canfyddiadau yn glir, ac os ydych chi'n ansicr am aderyn, disgrifiwch ei nodweddion yn lle dyfalu—mae cofnodion da yn helpu i ddiogelu adar a'u cynefinoedd!*

*Arhoswch yn chwilfrydig, gweithiwch fel tîm, a mwynhewch ddarganfod byd anhygoel o adar.*





*Sefydlwyd Gwylfa Adar Enlli ym 1953 i gofnodi mudo adar.*

# Cardiau Rolau
# Tîm Gwylfa Adar

## Adarydd



**Eich rôl**

Gwylio adar yn ofalus ac ysgrifennu sut maen nhw'n edrych, hedfan, beth maen nhw'n ei fwyta a'u hymddygiad.

Helpu i adnabod adar gwahanol a creu taflen adnabod adar i gofnodi pa rywogaeth sydd wedi'i weld neu glywed, e.e.

| Amser | Aderyn | Sawl? | Ymddygiad | Lleoliad | Nodiadau Cynefin |
|---|---|---|---|---|---|
| 10:15yb | Robin | 2 | Pigo am bryfaid genwair | Ger Coeden | Llawer o gloddiau gerllaw |

## Peiriannydd Cynefin



**Eich rôl**

Adeiladu cuddfan adar i wylio adar gan ddefnyddio deunyddiau naturiol.

Dewis y lle gorau i adeiladu cuddfan, er mwyn gwylio adar heb eu tarfu.

Cofnodi nodweddion a allai ddenu adar i'r ardal.

## Olrheiniwr Bywyd Gwyllt



**Eich rôl**

Cofnodi adar sy'n cael eu gweld. Gall hyn gynnwys rhywogaeth, ymddygiad, cynefin ac amser arsylwi.

Cadw cofnod o bryd a lle rydych chi'n gweld pob aderyn gan ddefnyddio marciau tali i gofnodi rhifau.

Gweithio gyda'r Adarydd i ysgrifennu hyn i gyd mewn llyfr log.

## Swyddog Cadwraeth



**Eich rôl**

Esbonio pam bod angen amddiffyn adar ac awgrymu gwelliannau i'r ardal gwylio adar.

Edrych ar wybodaeth am niferoedd adar i weld a oes unrhyw rai yn diflannu. www.tiramor.cymru/cofnodibywydgwyllt (Adnodd 11).

## Arbenigwr Cyfryngau



**Eich rôl**

Braslunio neu gymryd nodiadau am yr adar a'r ardal o'u hamgylch.

Defnyddio lluniadau, adroddiadau neu fideos i rannu eich canfyddiadau.

## Ecolegydd




**Eich rôl**

Ymchwilio i'r cynefin - cofnodi ffynonellau bwyd sydd gerllaw (e.e. pryfed, aeron a dŵr ayb).

Cofnodi unrhyw beth a allai effeithio ar bresenoldeb adar (e.e. tywydd, coed, neu anifeiliaid eraill).

Awgrymu ffyrdd i wella'r guddfan adar.



Roedd Ynys Enlli unwaith yn gartref i aderyn-drycin Manaw 55 oed.